**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **8 Mai 2002** |
| **Amser:** | **9.00** |
| **Lleoliad:** | **Bae Caerdydd** |
| **Teitl:** | **Y Ddadl ar Ddyfodol Ewrop** |

**Diben: Rhoi gwybod i'r aelodau am ffiniau'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop.**

Cronoleg

1. Mae'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop yn deillio o Gynhadledd Rynglywodraethol Nice, fis Rhagfyr 2000. Ni wnaed digon o waith paratoi a thrôdd uwchgynhadledd a oedd i fod i bara deuddydd yn farathon pum diwrnod. Yn y diwedd, daethpwyd i gytundebau ganol nos er mwyn caniatáu i'r broses ehangu ddigwydd. Nid oedd unrhyw un o'r farn bod y dull hwn o weithio yn addas ar gyfer y dyfodol mewn Undeb llawer mwy.

2. Tanlinellodd y posibilrwydd o ehangu faterion eraill o bwys. Wrth i gylch gwaith yr UE ymestyn, daeth yn llai amlwg, mewn rhai achosion, sut y dylid rhannu cyfrifoldebau rhwng y Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau. Awgrymwyd bod bwlch wedi tyfu rhwng cylch gwaith yr Undeb, oedd wedi ymestyn yn eang, a'i beirianwaith, a'i fod wedi colli cysylltiad â'i hunaniaeth graidd. Dyna pam bod angen dadl.

3. Trefnwyd Cynhadledd Rynglywodraethol arall ar gyfer 2004 i fynd i'r afael â'r materion hyn. Penderfynwyd y dylid paratoi'r tir ar gyfer Cynhadledd 2004 drwy broses ymgynghorol. Mae'r ymgynghoriad hwn ar ffurf Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop.

Pwy sy'n Eistedd ar y Confensiwn?

4. Mae'r Confensiwn yn cynnwys llywodraethau Aelod-wladwriaethau a sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Ei gadeirydd yw **V. Giscard d'Estaing**, cyn-Arlywydd Ffrainc. Mae dau is-gadeirydd yn ei gynorthwyo: **G. Amato**, cyn-Brif Weinidog yr Eidal a **Jean-Luc Dehaene,** cyn-Brif Weinidog Gwlad Belg. Cefnogir y Confensiwn gan Ysgrifenyddiaeth o dan arweiniad **Syr John Kerr**, cyn-bennaeth Gwasanaeth Llysgenhadol y DU a chyn Gynrychiolydd Parhaol y DU

ym Mrwsel.

5. Mae pob un o Lywodraethau 15 Aelod-wladwriaeth yr UE yn cael ei chynrychioli gan un gweinidog. Ar gyfer y DU, **Peter Hain**, Gweinidog Ewrop yw hwn.

Bydd lle’n cael ei neilltuo i ddau aelod o seneddau cenedlaethol yr Aelod-wladwriaethau. O Dy’r Cyffredin, **Gisela Stewart** (Llafur) a **David Heathcoat-Amory** (Ceidwadwyr) yw’r rhain.

6. Mae Senedd Ewrop yn darparu un aelod ar bymtheg. Mae dau Gomisiynydd yn cynrychioli’r Comisiwn Ewropeaidd, Barnier a Vittorino.

7. Caiff pob gwlad sy’n ymgeisio ei chynrychioli gan un cynrychiolydd o’r llywodraeth a dau seneddwr cenedlaethol. Mae gan y gwledydd sy’n ymgeisio hawliau siarad cyflawn ond ni allant atal consensws rhag datblygu ymhlith 15 aelod yr UE.

8. Mae gan Bwyllgor y Rhanbarthau chwe chynrychiolydd â statws arsylwi (h.y. hawliau siarad, ond dim hawliau pleidleisio); mae Ecosoc yn anfon tri chynrychiolydd, hefyd i arsylwi. Mae tri chynrychiolydd o’r sector nad yw’n ymwneud â’r Llywodraeth hefyd yn arsylwi.

Dull y Confensiwn

9. Cyfarfu’r Confensiwn am y tro cyntaf mewn cyfarfod llawn ym Mrwsel ar 28 Chwefror. Cynhaliwyd cyfarfodydd pellach ar 28 Chwefror; 21/22 Mawrth; 15/16 Ebrill. Bydd yn cyfarfod bob rhyw fis ym Mrwsel hyd fis Mawrth/Ebrill 2003.

10. Caiff ffurf ac agenda’r Confensiwn ei lywio gan bwyllgor parhaol o 12 aelod a ddewiswyd o blith y cynrychiolwyr.

11. Bydd y Confensiwn yn rhoi ystyriaeth i faterion amrywiol ac yn llunio dogfen derfynol. Gall hon gynnwys naill ai opsiynau gwahanol, gan ddangos lefel y gefnogaeth a sicrhawyd, neu argymhellion os cyrhaeddir consensws. Ochr yn ochr â’r dadleuon cenedlaethol ar Ddyfodol Ewrop, bydd y ddogfen yn fan cychwyn ar gyfer trafodaethau’r Gynhadledd Rynglywodraethol nesaf (2004 fwy na thebyg) a fydd yn gwneud y penderfyniadau sylfaenol.

12. Mae "Fforwm" yn cydredeg â’r Confensiwn a Dehaene, yr is-gadeirydd sy’n gyfrifol am hwnnw. Mae hwn yn bodoli ar ffurf rithwir fel gwefan er mwyn i’r gymdeithas sifil gyfrannu at y ddadl, sef academia, NGOau, busnesau etc. Nid yw’n glir p’un a fydd yn ysgogi gwrandawiadau cyhoeddus.

Y Materion: Crynodeb

13. Mae cylch gorchwyl y ddadl wedi’i nodi yn Natganiad Laeken. Nod y grynodeb hon yw rhoi

blas ar raddau'r ddadl ac nid yw'n derfynol.

14. Ar hyn o bryd, mae gan yr Undeb Ewropeaidd bedwar cytundeb. A ddylid cyfuno'r rhain yn un **"Cyfansoddiad"**?

15. Sut gellir **rhannu'r cymwysterau** mewn ffordd mwy tryloyw? A ddylid gwahaniaethu'n fwy rhwng y tri math o gymhwyster: cymhwyster unigol yr Undeb, cymhwyster Aelod-wladwriaethau a'r cymhwyster y mae'r Undeb a'r Aelod-wladwriaethau yn ei rhannu? Sut y dylid cymhwyso egwyddor **is-reolaeth** yma a sut y dylid ei chymhwyso i haen ranbarthol y llywodraeth?

16. **Symleiddio**: a ddylid diffinio offerynnau amrywiol yr Undeb yn well ac a ddylid lleihau eu niferoedd. A yw'n well cael mwy o **ddeddfwriaeth fframwaith**, gan roi mwy o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau wrth gyflawni amcanion polisi?

17. Mwy o **ddemocratiaeth a thryloywder**: A ddylai Llywydd yr UE gael ei benodi neu ei ethol? Gan bwy? A ddylid cryfhau rôl y Llywydd ac ymestyn **cydbenderfyniad**? A oes angen diwygio'r Cyngor? A ddylai gyfarfod yn gyhoeddus ac a ddylai ei ddogfennau fod yn haws cael gafael arnynt?

18. Cyfreithlondeb democrataidd: a ddylid cynrychioli **seneddau cenedlaethol** mewn **sefydliad newydd** ochr yn ochr â'r Cyngor a'r Llywydd Ewropeaidd? Beth ddylai eu rôl fod? (A fyddem yn gweld rôl i'r Cynulliad mewn corff o'r fath? Beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau?)

19. A ddylid sicrhau mwy o **Bleidleisio Mwyafrifol Amodol**? Sut y gellir cyflymu cydbenderfynu? Beth am gylch chwe mis llywyddiaeth yr UE – a yw'n effeithlon?

<u>Rhai cwestiynau allweddol i'r Cynulliad:</u>

- Pa werthoedd a pholisïau ddylai fod wrth wraidd yr Undeb? A oes angen cyfansoddiad ar yr UE a beth ddylai fod yn y cyfansoddiad?
- Mae Gweinidogion y Cynulliad yn mynychu Cyngor y Gweinidogion yn rheolaidd – sut byddai'r Cynulliad yn ymaddasu ag unrhyw drefniadau diwygiedig?
- A oes angen sefydliad newydd ar yr UE ar gyfer seneddau cenedlaethol? Os felly, pa ran y dylai'r Cynulliad ei chwarae? Beth yw'r goblygiadau ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau?
- Sut y gellir gwella cyfreithlondeb democrataidd yn yr UE?
- A ddylai rôl Llywydd Ewrop fod yn fwy?

<u>Ym mha fodd y gall Cymru gael dylanwad?</u>

20. Gan yr Aelod-wladwriaethau y bydd y dylanwad mwyaf yn y Confensiwn a'r Gynhadledd Rynglywodraethol wedi hynny. Gwnaed trefniadau gan y llywodraeth i Brif Weinidog Cymru a chydweithwyr gyfrannu'n rheolaidd at y drafodaeth ehangach o fewn y DU, yn benodol MINECOR a Chydbwyllgor y Gweinidogion (Ewrop). Yn ystod cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Tramor y byddai'n falch o ddod i Gymru er mwyn helpu ymestyn y ddadl gyhoeddus ac mae Prif Weinidog Cymru yn gweithio ar hyn.

21. Cyfarfu Prif Weinidog Cymru â chynrychiolwyr senedd y DU (Ms Stuart a Mr Heathcoat-Amory) ynglyn â'r Confensiwn yn Llundain ar 22 Ebrill fel rhan o'i raglen gyda chadeiryddion pwyllgor y DU. Cyfarfu â Mr Hain ar 26 Ebrill, a bydd yn cael cyfarfodydd pellach gydag ef.

22. Bydd Prif Weinidog Cymru yn cyfarfod â'r Comisiynydd Barnier ym Mrwsel ar 13 Mai fel rhan o grwp o benaethiaid llywodraeth rhanbarthol er mwyn trafod Dyfodol Ewrop. Bu gan Gymru ran flaenllaw yn y grwp rhanbarthau hwn sydd wedi llunio ymateb ar y cyd i'r Papur Gwyn ar y Drefn Lywodraethol.

23. Mae dadl genedlaethol y DU yn bwysig a bydd y Cynulliad am ddylanwadu arni. Byddwn hefyd am edrych ar safbwyntiau ehangach i lywio ein trafodaeth.

Mae Rosemary Butler ac aelodau eraill Pwyllgor y Rhanbarthau o Gymru mewn sefyllfa dda i lobïo ar y Confensiwn.

24. Bydd Prif Weinidog Cymru yn cael cyfle drwy'r grwp Rhanbarthau sydd â Phwerau Deddfwriaethol i drafod materion o'r ddwy ochr a thrwy'r grwp cyfan yn ei gynhadledd ym mis Tachwedd.

Datblygu'r Ddadl yng Nghymru

25. Un o'r materion sy'n llywio'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop yw ehangu'r drafodaeth oddi wrth lywodraethau a diplomyddion yn unig. Roedd yr ymagwedd a gymerwyd yng Nghymru at y Papur Gwyn Ewropeaidd ar Lywodraethu yn un dda a gallai fod yn fodel. Beth bynnag, mae'r camau canlynol yn bosibl:

- Gweinidogion i lobïo o fewn peirianwaith llywodraeth y DU (Minecor, Cydbwyllgor Gweinidogion Ewrop, cyfarfodydd rhwng pleidiau etc) – Prif Weinidog Cymru;
- Trafodaeth yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ddiffinio materion craidd;
- Gwybodaeth gan ranbarthau eraill Ewrop ar gyfer gwaith dadansoddi drwy gymharu – Swyddfa Brwsel;
- Dadl mewn cyfarfod llawn yn y Cynulliad er mwyn cael barn drawsbleidiol;
- Digwyddiad/au ar ffurf Fforwm Ewropeaidd, gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr etholedig Cymru a'r gymdeithas sifil ehangach.

**Desmond Clifford**

**Swyddfa Brwsel**

**Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**Darllen Pellach**

The Laeken Declaration

Europe's Crossroads – Hywel Ceri Jones : y Sefydliad Materion Cymreig, Agenda Gwanwyn 2002

www.fco.gov.uk – gwefan y Swyddfa Dramor: yn benodol, adrannau ar Ewrop a chyfraniadau Peter Hain i'r Confensiwn

european-convention@eu.int – gwefan y Confensiwn ei hun sy'n rhoi manylion llawn am ei waith

Ceir mynediad cyfleus i'r Fforwm ar gyfer cymdeithas sifil drwy safle'r Confensiwn uchod – mae cyfraniad Cynulliad Rhanbarthau Ewrop o ddiddordeb arbennig.

**Y Gyfarwyddiaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol**